Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru 2022

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH








Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 68/2023

Dyddiad Cyhoeddi 06/07/2023

© Hawlfraint y Goron 2023

ISBN Digidol: 978-1-83504-313-4

Visit Wales
Croeso Cymru

STRATEGIC
RESEARCH & INSIGHT

# Dull ac Amcanion



**Pam mae'r ymchwil hon yn cael ei chynnal?**

- Mewnwelediad allweddol i berfformiad twristiaeth ledled Cymru
- Yn llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector twristiaeth
- Yn llywio gwaith cynllunio awdurdodau lleol ar gyfer y sector twristiaeth

**Sut mae'r ymchwil hon yn cael ei chynnal?**



- Ail-lansiwyd ym mis Awst 2022 yn dilyn seibiant yn ystod blynyddoedd COVID-19
- Penodwyd Strategic Research and Insight gan Croeso Cymru i reoli'r arolwg
- Casglwyd data yn fisol drwy ddau ddull:
  - Ffôn
  - Ar-lein



- Casglwyd data ar *Ribos* – meddalwedd meddiannaeth bwrpasol
- https://wales.ribos.co.uk/

# Samplu a Chyfansoddi

**Pa ddata sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn?**

- Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys data o dair ffynhonnell:
    - Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru a gynhaliwyd gan Strategic Research and Insight, cwmni ymchwil a leolir yng Nghymru. (Casglwyd data Awst - Rhagfyr, 2022)
    - CoStar Ltd, cwmni systemau rheoli eiddo sy'n darparu data ar westai â gwasanaeth (Casglwyd data Ionawr - Rhagfyr, 2022), a
    - Transparent, cwmni gwe-grafu sy'n darparu data ar Osodiadau Tymor Byr (Casglwyd data Ionawr - Rhagfyr, 2022)

**Sut mae'r data hwn yn cael ei gynnwys?**

- Darperir manylion llawn y sampl, meini prawf dethol a chyfyngiadau ar dudalennau 4, 5, a 6.

# Samplu - Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru

| Sector / Mis | Sampl mis Awst | | | Sampl mis Medi | | | Sampl mis Hydref | | | Sampl mis Tachwedd | | | Sampl mis Rhagfyr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm |
| Llety â gwasanaeth | 158 | 26 | 184 | 155 | 24 | 179 | 160 | 34 | 194 | 168 | 56 | 224 | 129 | 50 | 179 |
| Hunanddarpar ar | 880 | 10 | 890 | 880 | 5 | 885 | 857 | 8 | 865 | 844 | 84 | 928 | 816 | 111 | 927 |
| Meysydd carafanau a phebyll | 49 | 1 | 50 | 49 | 1 | 50 | 46 | 7 | 53 | *Amherthnasol* | | | *Amherthnasol* | | |
| Hosteli | 22 | 3 | 25 | 22 | 3 | 25 | 21 | 6 | 27 | 20 | 10 | 30 | 20 | 5 | 25 |

- Ceir dadansoddiadau pellach ar faint y sampl fesul rhanbarth a math o eiddo yn yr atodiadau

**Beth sy'n cael ei gynnwys mewn llety â gwasanaeth?**

- Gwestai annibynnol*
- Gwestai / Llety Gwely a Brecwast

**Beth sy'n cael ei gynnwys mewn llety hunanddarpar?**

- Asiantaethau sy'n cyflwyno data trwy ddatganiad bloc
- Bythynnod/fflatiau annibynnol

**Beth sy'n cael ei gynnwys mewn meysydd carafanau a gwersylla?**

- Grwpiau parciau mawr sy'n cyflwyno data trwy ddatganiad bloc
- Meysydd carafanau a gwersylla annibynnol

**Beth sy'n cael ei gynnwys mewn hosteli?**

- Cymdeithasau sy'n cyflwyno data trwy ddatganiad bloc
- Hosteli twristiaeth annibynnol

** Ymdrinnir â gwestai cadwyn mwy mewn ymchwil ar wahân gan STR Global*

# Data Trydydd Parti – Transparent a STR



## Transparent

- Defnyddir data gosodiadau tymor byr a ddarparwyd gan Transparent i gyfrifo deiliadaeth ar gyfer y sector gosodiadau tymor byr ac adroddir arno fel rhan o adran llety hunanddarpar yr adroddiad hwn.
- Mae'r data hwn yn wahanol i'r data arall a gyflwynir yn yr adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys data wedi'i we-grafu ac wedi'i wirio'n annibynnol sy'n cwmpasu'r holl osodiadau tymor byr a hysbysebir ar set o drefnwyr teithiau ar-lein a ddiffiniwyd ymlaen llaw (AirBnB, Booking.com, Vrbo, a TripAdvisor), tra bod Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru yn seiliedig ar fethodoleg samplu sy'n amcangyfrif deiliadaeth gyffredinol y sector o is-set lai o gyfranogwyr.
- I gael rhagor o wybodaeth am y data hwn, ewch i wefan Transparent neu cysylltwch ag awdur yr adroddiad hwn.

**Mae data o Transparent a STR yn cwmpasu 2022 i gyd ac yn cael eu hadrodd fel y cyfryw. Mae data Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru yn ymdrin â mis Awst i fis Rhagfyr 2022 yn unig.**

## STR Global

- Daw rhywfaint o ddata llety â gwasanaeth (a adroddir ar wahân yn yr adran berthnasol o'r adroddiad) o STR Global
- Mae'r data hwn yn cael ei gyflenwi gan STR i Croeso Cymru ac mae'n seiliedig ar banel sefydlog o gyfranogwyr sy'n adrodd deiliadaeth yn ddyddiol neu'n fisol. Mae'r data hwn yn cael ei wirio'n annibynnol gan STR.

# Data Trydydd Parti – Transparent a STR

**Transparent**

Mae data a ddarperir trwy Transparent yn cael ei gyflwyno trwy ddangosfwrdd ar-lein gydag opsiynau hidlo i ddiffinio pa ddata sy'n cael ei gynnwys.

At ddibenion dadansoddi yn yr adroddiad hwn, cafodd data ei hidlo yn ôl y meini prawf canlynol:

- Dim ond eiddo cyfan a aseswyd; nid oedd hyn yn cynnwys ystafelloedd preifat ac ystafelloedd a rennir – dyma'r diffiniad ar gyfer gosodiad tymor byr at ddibenion dadansoddi yn yr adroddiad hwn.
- Dim ond eiddo a nodwyd yn gywir gyda rhanbarth penodol a gynhwyswyd, gan na roddwyd data adnabod i rai eiddo ni ellid rhoi cyfrif amdanynt yn briodol ar sail ranbarthol ac felly cawsant eu heithrio.

| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gogledd** | 19,533 | 19,789 | 21,293 | 22,236 | 22,530 | 22,813 | 25,982 | 25,998 | 19,044 | 19,265 | 18,764 | 25,879 |
| **Canolbarth** | 7,291 | 7,317 | 7,791 | 8,080 | 8,220 | 8,326 | 9,099 | 9,067 | 7,262 | 7,253 | 7,161 | 9,479 |
| **De-ddwyrain** | 6,075 | 6,230 | 6,241 | 6,324 | 6,423 | 6,535 | 6,798 | 6,513 | 6,150 | 6,174 | 6,250 | 7,414 |
| **De-orllewin** | 13,397 | 13,563 | 14,585 | 15,497 | 16,058 | 16,138 | 17,207 | 16,548 | 13,330 | 13,330 | 12,999 | 18,939 |

# Data Trydydd Parti – Transparent a STR

## STR Global

- Daw rhywfaint o ddata llety â gwasanaeth (a adroddir ar wahân yn yr adran berthnasol o'r adroddiad) o STR Global
- Mae'r data hwn yn cael ei gyflenwi gan STR i Croeso Cymru ac mae'n seiliedig ar banel sefydlog o gyfranogwyr sy'n adrodd deiliadaeth yn ddyddiol neu'n fisol. Mae'r data hwn yn cael ei wirio'n annibynnol gan STR.

| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar agor** | 136 | 136 | 135 | 136 | 134 | 133 | 132 | 132 | 132 | 129 | 130 | 130 |
| **Ar gau** | 13 | 13 | 14 | 13 | 15 | 16 | 17 | 17 | 17 | 20 | 19 | 19 |

# Pwysoliad - Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru

**Pwysoliad**




- Canlyniadau ar gyfer pob sector wedi'i bwysoli fesul rhanbarth (Gogledd / Canolbarth / De-orllewin / De-ddwyrain Cymru) ar sail amcangyfrif o gapasiti gwelyau gan ddefnyddio arolwg stoc gwelyau diweddaraf Croeso Cymru

- Mae pwysoli felly yn cywiro unrhyw anghydbwysedd fesul rhanbarth o fewn pob sector

- Mae’r canlyniadau’n cael eu pwysoli’n naturiol yn ôl maint yr eiddo oherwydd y caiff deiliadaeth ei chyfrifo drwy rannu’r ystafelloedd/gwelyau cyffredinol a werthir â’r ystafelloedd/gwelyau cyffredinol sydd ar gael yn y sector

# Sector llety â gwasanaeth







# Sector llety â gwasanaeth

## Deiliadaeth yn uwch na chyn COVID-19

- Ar anterth y tymor twristiaeth ym mis Awst, cyrhaeddodd y sector llety â gwasanaeth 79% o ddeiliadaeth ystafelloedd / 70% defnydd gwelyau
- Nid yw'r ffigurau'n gwbl gymaradwy â'r cyfnod cyn COVID-19 oherwydd newid yn y sampl (dim gwestai cadwyn nawr)
- Ond yr arwydd yw bod deiliadaeth ystafelloedd yn uwch ym mis Awst 2022 nag ym mis Awst 2019 (sef 79% ar gyfer gwestai a 61% ar gyfer llety gwely a brecwast a gwestai bach)
- Mae misoedd eraill yn dangos darlun tebyg
- Nododd baromedrau diweddar fod mwy o fusnesau llety â gwasanaeth wedi profi nifer is o gwsmeriaid yn yr haf ac yn gyffredinol yn 2022 o gymharu â'r cyfnod cyn COVID-19.
- Ond mae baromedr yn mesur *% o fusnesau* yn hytrach na *% wedi'i meddiannu o'r ystafelloedd sydd ar gael yn y sector* (gweler y sleid nesaf)



# Sector llety â gwasanaeth





### Ceir ychydig o amrywiaeth fesul rhanbarth

- Gogledd Cymru ar y blaen o ran deiliadaeth ystafelloedd (69%)
- Canolbarth Cymru y tu ôl i ranbarthau eraill (55%)

### Cyfran uwch o ymwelwyr tramor yn Ne-orllewin Cymru

- Mae proffil ymwelwyr i Ogledd, Canolbarth a De-ddwyrain Cymru yn cael ei ddominyddu gan y DU
- Gallai'r ffaith nad oes unrhyw westai cadwyn yn y sampl ddylanwadu ar y canlyniad ar gyfer y De Ddwyrain
- Dim data cyn COVID-19 ar gael ar gyfer cymariaethau
- Mae canfyddiadau baromedr yn awgrymu y disgwylir i lefel yr ymwelwyr tramor yn 2023 fod yn debyg i 2022 ar gyfer llety â gwasanaeth




# Sector llety â gwasanaeth


## Mae eiddo mwy yn llenwi'r gwelyau yn well

- Trothwy yn fwy / yn llai na tua deg ystafell
- Mae meddiannaeth llawer is mewn eiddo llai yn esbonio pam y nododd y baromedr fod mwy o fusnesau wedi cael llai o gwsmeriaid o gymharu â’r cyfnod cyn COVID-19, ond mae deiliadaeth ystafelloedd a gwelyau yn gyffredinol yn y sector yn fwy o'i gymharu â chyn COVID-19
- Mae'r sector llety â gwasanaeth yng Nghymru yn cynnwys llawer o ficrofusnesau
- Mae Croeso Cymru yn adrodd ar ddata o gadwyni gwestai mwy a gasglwyd gan STR Global ar wahân i'r adroddiad hwn




## Wedi'i rannu yn ôl math o eiddo yn gyson â rhaniad yn ôl maint


- Mae'r siart gyferbyn yn dangos rhaniad yn ôl math o eiddo, sy'n debyg i rannu yn ôl maint
- Dengys y canlyniadau wahaniaethau clir mewn deiliadaeth rhwng y ddau fath o eiddo



# STR Global – Data Gwestai


## Gwestai mwy yn gwella

- Mae data STR yn dangos bod gwestai mwy (yn fwyaf tebygol o fod yn westai cadwyn) yn adennill eu lefelau deiliadaeth o 2021 gyda'r rhai â 51 i 100 o ystafelloedd yn dangos y lefelau deiliadaeth uchaf (80%).




## Amrywiad tymhorol

- Mae tuedd tymhorol clir mewn lefelau deiliadaeth gyda'r haf (Ch3) yn dangos y lefelau cyffredinol uchaf, ond (fel y dangosir yn nes ymlaen) mae hyn yn llai amlwg nag mewn llety hunanddarpar a gosodiadau tymor byr.




# STR Global – Data Gwestai

## Amrywiad Rhanbarthol

- Mae lefelau isel o amrywiad rhanbarthol i'w gweld, gyda'r De-ddwyrain ond yn tanberfformio ychydig.

## Deiliadaeth Fesul Rhanbarth




# STR Global – Data Gwestai



## Cyfradd ddyddiol gyfartalog yn uwch na'r llynedd


- Mae’r gyfradd ddyddiol gyfartalog ar gyfer 2022 yn uwch yn gyffredinol o gymharu â 2021 gydag uchafbwynt yn Ch3 sy’n cyfateb i’r lefelau deiliadaeth a adroddwyd ar gyfer y cyfnod hwn.




## Refeniw fesul ystafell sydd ar gael hefyd yn uwch

- Mae'r refeniw fesul ystafell sydd ar gael (mae'r mesuriad yn cael ei gyfrifo trwy luosi cyfradd ddyddiol gyfartalog gwesty â'i gyfradd ddefnydd) yn dangos ychydig o wahaniaeth uwch ar gyfer 2022 o gymharu â 2021 ond mae'n dangos patrwm tebyg o ran natur dymhorol.

- Mae Ch1 a Ch2 yn 2021 yn isel o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19 ac ni ddylid eu dehongli fel arwydd o unrhyw wahaniaeth sylweddol arall.




# STR Global – Data Gwestai


## Amrywiad Rhanbarthol

- Mae dadansoddiad ar lefel ranbarthol yn dangos rhywfaint o amrywiaeth ar draws rhanbarthau a rhwng blynyddoedd.
- Mae'r De-ddwyrain yn perfformio'n well na'r Gogledd a'r De-orllewin, ac mae hefyd yn dangos y newid mwyaf flwyddyn ar ôl blwyddyn o gyfradd ddyddiol gyfartalog a refeniw fesul ystafell sydd ar gael.

Cyfartaledd Cyfradd Dyddiol (CCD) fesul rhanbarth 2021 vs 2022




Refeniw Fesul Ystafell Sydd Ar Gael (RefFYSAG) yn ôl Rhanbarth 2021 o'i gymharu â 2022



# Sector hunanddarpar




# Sector hunanddarpar

**Yn is na'r lefel cyn COVID-19 ym mis Awst ond yna adferiad**

- Cyrhaeddodd deiliadaeth unedau hunanddarpar 78% ym mis Awst – yn llai nag Awst 2019 (88%)
- Mae Baromedr Haf 2022 yn cadarnhau hyn
- Ond roedd deiliadaeth mis Medi (73%) yn uwch na chyn COVID-19 (68%)
- Fel yr oedd mis Hydref (61% yn 2022 o gymharu â 54% yn 2019), mis Tachwedd (45% o'i gymharu â 38%) a mis Rhagfyr (45% o'i gymharu â 40%)
- Gostyngiad sydyn mewn deiliadaeth yn mynd o fis Hydref i fis Tachwedd, ond roedd y lefelau wedyn yn parhau ym mis Rhagfyr.

**Deiliadaeth gyffredinol hunanarlwyo fesul mis**



# Sector Hunanddarpar


## Perfformiad cryf yn y De-orllewin

- Mae deiliadaeth De-orllewin Cymru (74%) rhwng mis Awst a mis Rhagfyr ymhell o flaen Gogledd (53%) a Chanolbarth (45%) Cymru

## Mae bron pob ymwelydd domestig ar gyfer y sector hunanddarpar


- Y gyfran uchaf (98%) o westeion y DU o unrhyw sector

**Deiliadaeth hunanarlwyo fesul rhanbarth Awst – Rhag**




Maint sampl y De-ddwyrain yn rhy fach i'w ddangos

**Nosweithiau gwely hunanarlwyo yn ôl tarddiad Awst – Rhag**





Maint sampl y De-ddwyrain yn rhy fach i'w ddangos

# Sector Hunanddarpar


## Busnesau mwy yn cael gwell % deiliadaeth

- Roedd busnesau gyda mwy na deg gwely (ar draws un neu fwy o unedau) yn llawer llawnach rhwng mis Awst a mis Rhagfyr
- Yr un canfyddiad ag yn y sector llety â gwasanaeth




## Busnesau asiantaeth yn cyflawni gwell % deiliadaeth

- Cyflawnodd busnesau sy’n rhan o asiantaeth neu grŵp cyfunol 63% o ddeiliadaeth uned – sy’n sylweddol uwch na busnesau annibynnol (45%)




# Transparent Intelligence – Data Gosodiadau Tymor Byr




## Gwahaniaethau Rhanbarthol

- Gellir gweld lefelau deiliadaeth uwch yn 2021 o gymharu â 2022 ar draws pob rhanbarth, gyda'r newid negyddol mwyaf yn digwydd yn y Gogledd (newid o -12%).




## Tuedd Tymhorol

- Mae'r ddwy flynedd yn dangos uchafbwynt o ran deiliadaeth yn ystod Ch3 (Gorffennaf-Medi) gyda thuedd tymhorol clir yn amlwg er bod mwy o wahaniaethau wedi'u nodi rhwng rhanbarthau yn hytrach na rhwng tymhorau.




# Transparent Intelligence – Data Gosodiadau Tymor Byr




## Cymhariaeth

- Mae cymhariaeth tebyg at ei debyg ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst a mis Rhagfyr rhwng Transparent ac Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru yn dangos gwahaniaeth llawer mwy amlwg rhwng mis Awst a mis Hydref, gyda'r gwahaniaeth yn tyfu llai rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

**Ffigurau Deiliadaeth o'r Arolwg 'Transparent' a Deiliadaeth Llety**



# Sector carafanau a gwersylla



# Sector carafanau a gwersylla


## Tymhorol, ond yn parhau i dderbyn gwesteion ym mis Hydref

- Cyrhaeddodd deiliadaeth lleiniau uchafbwynt o 71% ym mis Awst
- Sector sy'n dibynnu ar y tywydd, ond rhywfaint o weithgarwch yn parhau ym mis Hydref (deiliadaeth gyffredinol o 38%)
- Nid yw cymariaethau â deiliadaeth cyn COVID-19 yn bosibl oherwydd y gwahaniaeth yng nghyfansoddiad y sampl
- Awgrymodd baromedr yr haf fod meysydd carafanau a gwersylla wedi perfformio'n well na sectorau eraill o'i gymharu â' chyn COVID-19


## Rhaniad y DU o gymharu â thramor

- Ymwelwyr domestig sy'n dominyddu'r sector – daeth 95% o'r ymwelwyr o'r DU

**Deiliadaeth maes carafanau a gwersylla fesul mis**



# Sector hosteli



# Sector hosteli


## Llai o gwsmeriaid yn parhau o gymharu â chyn COVID-19

- Effeithiodd COVID-19 yn arbennig o galed ar y sector hosteli oherwydd diffyg ystafelloedd hunangynhwysol
- Cyrhaeddodd defnydd gwelyau 69% ym mis Awst – o gymharu â 75% ym mis Awst 2019
- Darlun tebyg ar gyfer mis Medi 2022 (43% o'i gymharu â 54% yn 2019), mis Hydref (43% o'i gymharu â 51%), mis Tachwedd (33% o'i gymharu â 46%) a mis Rhagfyr (30% o'i gymharu â 42%)

## Rhaniad y DU o gymharu â thramor

- Daeth 92% o ymwelwyr rhwng mis Awst a mis Rhagfyr o'r DU; 8% o dramor
- Cymharol â rhaniad i'r sector llety â gwasanaeth

Deiliadaeth gwelyau hosteli fesul mis



# Goblygiadau

# Goblygiadau i Croeso Cymru a'i bartneriaid

**Bydd cysondeb canlyniadau yn gwella dros amser**

- Gallai cymariaethau â blynyddoedd blaenorol fod yn amodol ar wahaniaethau mewn dull a chyfansoddiad sampl, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu â data blaenorol

**Mae angen mwy o gefnogaeth dymhorol ar y Canolbarth a meysydd carafanau a gwersylla**

- Mae hybu twristiaeth drwy gydol y flwyddyn yn gylch gorchwyl pwysig i Croeso Cymru
- Mae'n ddealladwy bod deiliadaeth carafanau a meysydd gwersylla yn gostwng pan fydd y tywydd yn gwaethygu – ond gall dechrau'r hydref fod yn bleserus o hyd ac mae llawer o leoedd dros ben
- Mae lefelau deiliadaeth yn y Canolbarth y tu ôl i ranbarthau eraill

**Mae angen mwy o gefnogaeth ar hunanddarpar i ddenu ymwelwyr tramor**

- Mae sectorau llety â gwasanaeth a hosteli yn chwarae eu rhan wrth ddenu ymwelwyr tramor
- Nid yw hunanddarpar yn gwneud hynny – efallai oherwydd sut y caiff llety ei hyrwyddo

**Mae angen mwy o gefnogaeth ar weithredwyr llety â gwasanaeth a llety hunanddarpar llai**

- Rhaniad clir mewn % lefelau deiliadaeth rhwng gweithredwyr mwy a llai
- Mae angen cymorth ar weithredwyr llai – os ydynt ei eisiau, gan fod llawer ohonynt yn fusnesau 'ffordd o fyw'

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Goblygiadau i Croeso Cymru a'i bartneriaid

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

## Mae Data trydydd parti (STR a Transparent) yn dangos canlyniadau diddorol

- Mae data gan STR ar lety â gwasanaeth mwy yn dangos perfformiad cyffredinol cryfach o gymharu â sectorau llety â gwasanaeth llai a rhai sectorau eraill.
- Mae'r eiddo hyn yn dueddol o fod yn westai cadwyn mawr a allai esbonio'r perfformiad uchel hwn
- Mae data o Transparent ar eiddo gosodiadau tymor byr yn dangos lefelau perfformiad is na'r rhai a gasglwyd yn yr arolwg Deiliadaeth Llety

## Ffigur cyffredinol

- Mae data o 2022 yn dangos sector llety sy'n llwyddo'n fras i gynnal perfformiad yn yr amgylchedd economaidd ar ôl COVID-19.
- Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y Baromedr Twristiaeth o'r haf, 2022, mae llawer o fusnesau'n ei chael yn anodd gyda chostau uwch a llai o elw, felly mae lefelau deiliadaeth gyffredinol is yn cael effaith economaidd fawr iawn ar fusnesau.
- Mae cryn wahaniaeth rhwng sectorau o ran perfformiad, ac yn aml mae amrywiadau rhanbarthol a thymhorol cryf hefyd.

# Atodiadau

# Samplu – Sector Llety â Gwasanaeth



## Sector llety â gwasanaeth yn ôl rhanbarth a math

| Math / Mis | Sampl mis Awst | | | Sampl mis Medi | | | Sampl mis Hydref | | | Sampl mis Tachwedd | | | Sampl mis Rhagfyr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm |
| Yn gyffredinol | 158 | 26 | 184 | 155 | 24 | 179 | 160 | 34 | 194 | 168 | 56 | 224 | 129 | 50 | 179 |
| Gwesty | 72 | 5 | 77 | 70 | 4 | 74 | 77 | 4 | 81 | 79 | 7 | 86 | 58 | 8 | 66 |
| Gwesty bach / gwely a brecwast | 86 | 21 | 107 | 85 | 20 | 105 | 83 | 30 | 113 | 89 | 49 | 138 | 71 | 42 | 113 |

| Rhanbarth / Mis | Sampl mis Awst | | | Sampl mis Medi | | | Sampl mis Hydref | | | Sampl mis Tachwedd | | | Sampl mis Rhagfyr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm |
| Gogledd | 51 | 6 | 57 | 56 | 7 | 63 | 55 | 10 | 65 | 49 | 21 | 70 | 36 | 22 | 58 |
| Canolbarth | 36 | 7 | 43 | 31 | 4 | 35 | 33 | 7 | 40 | 44 | 10 | 54 | 34 | 10 | 44 |
| De-orllewin | 53 | 10 | 63 | 50 | 9 | 59 | 53 | 11 | 64 | 55 | 18 | 73 | 42 | 15 | 57 |
| De-ddwyrain | 18 | 3 | 21 | 18 | 4 | 22 | 19 | 6 | 25 | 20 | 7 | 27 | 17 | 3 | 20 |

# Samplu – Sector Hunanddarpar



## Sector hunanddarpar fesul rhanbarth a math

| Math / Mis | Sampl mis Awst | | | Sampl mis Medi | | | Sampl mis Hydref | | | Sampl mis Tachwedd | | | Sampl mis Rhagfyr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm |
| Yn gyffredinol | 880 | 10 | 890 | 880 | 5 | 885 | 857 | 8 | 865 | 844 | 84 | 928 | 816 | 111 | 927 |
| Datganiad bloc | 833 | 0 | 833 | 835 | 0 | 835 | 822 | 0 | 822 | 784 | 70 | 853 | 766 | 93 | 859 |
| Annibynnol | 47 | 10 | 57 | 45 | 5 | 50 | 35 | 8 | 43 | 60 | 14 | 75 | 50 | 18 | 68 |

| Rhanbarth / Mis | Sampl mis Awst | | | Sampl mis Medi | | | Sampl mis Hydref | | | Sampl mis Tachwedd | | | Sampl mis Rhagfyr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm |
| Gogledd | 114 | 7 | 121 | 116 | 4 | 120 | 101 | 5 | 106 | 118 | 10 | 128 | 119 | 8 | 127 |
| Canolbarth | 372 | 1 | 373 | 372 | 1 | 373 | 373 | 2 | 375 | 358 | 34 | 392 | 350 | 44 | 394 |
| De-orllewin | 391 | 2 | 393 | 389 | 0 | 389 | 380 | 1 | 381 | 363 | 40 | 403 | 342 | 59 | 401 |
| De-ddwyrain | 3 | 0 | 3 | 3 | 0 | 3 | 3 | 0 | 3 | 5 | 0 | 5 | 5 | 0 | 5 |

# Samplu – Sector Carafanau a Gwersylla



## Sector carafanau a gwersylla yn ôl rhanbarth a math

| Math / Mis | Sampl mis Awst | | | Sampl mis Medi | | | Sampl mis Hydref | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm |
| Yn gyffredinol | 49 | 1 | 50 | 49 | 1 | 50 | 46 | 7 | 53 |
| Datganiad bloc | 5 | 0 | 5 | 5 | 0 | 5 | 5 | 0 | 5 |
| Annibynnol | 44 | 1 | 45 | 44 | 1 | 45 | 41 | 7 | 48 |

| Rhanbarth / Mis | Sampl mis Awst | | | Sampl mis Medi | | | Sampl mis Hydref | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm |
| Gogledd | 19 | 0 | 19 | 19 | 0 | 19 | 18 | 4 | 22 |
| Canolbarth | 9 | 1 | 10 | 9 | 1 | 10 | 9 | 1 | 10 |
| De-orllewin | 10 | 0 | 10 | 10 | 0 | 10 | 8 | 2 | 10 |
| De-ddwyrain | 11 | 0 | 11 | 11 | 0 | 11 | 11 | 0 | 11 |

# Samplu – Sector Hosteli

## Sector hostel yn ôl rhanbarth a math

| Math / Mis | Sampl mis Awst | | | Sampl mis Medi | | | Sampl mis Hydref | | | Sampl mis Tachwedd | | | Sampl mis Rhagfyr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm |
| Yn gyffredinol | 22 | 3 | 25 | 22 | 3 | 25 | 21 | 6 | 27 | 20 | 10 | 30 | 20 | 5 | 25 |
| Datganiad bloc | 11 | 0 | 11 | 11 | 0 | 11 | 11 | 0 | 11 | 2 | 0 | 2 | 2 | 0 | 2 |
| Annibynnol | 11 | 3 | 14 | 11 | 3 | 14 | 10 | 6 | 16 | 18 | 10 | 28 | 18 | 5 | 23 |

| Rhanbarth / Mis | Sampl mis Awst | | | Sampl mis Medi | | | Sampl mis Hydref | | | Sampl mis Tachwedd | | | Sampl mis Rhagfyr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm | Ar agor | Ar gau | Cyfans wm |
| Gogledd | 9 | 0 | 9 | 9 | 0 | 9 | 9 | 1 | 10 | 7 | 3 | 10 | 6 | 0 | 6 |
| Canolbarth | 4 | 1 | 5 | 4 | 1 | 5 | 3 | 2 | 5 | 4 | 2 | 6 | 4 | 2 | 6 |
| De-orllewin | 8 | 0 | 8 | 8 | 0 | 8 | 8 | 1 | 9 | 5 | 3 | 8 | 6 | 1 | 7 |
| De-ddwyrain | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 | 4 | 2 | 6 | 4 | 2 | 6 |